Canllaw ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

Y Gyfarwyddiaeth Lles

Beth yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion?

Gall Gofal Cymdeithasol i Oedolion roi cymorth a chefnogaeth i chi a'ch gofalwr, os oes un gennych, i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol. Mae'r daflen hon yn egluro rhai o'r gwasanaethau y gallwn eu darparu neu'u trefnu os ydych dros 18 a bod arnoch angen help oherwydd:

- eich oedran,
- salwch,
- anabledd corfforol,
- problemau gyda'ch clyw neu'ch golwg,
- anawsterau iechyd meddwl,
- problemau a achoswyd gan gyffuriau ac alcohol,
- anabledd dysgu neu,
- eich bod yn darparu gofal ar gyfer rhywun yr effeithiwyd arno/arni gan unrhyw un o'r anawsterau hyn.

Pwy all dderbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion?

Er mwyn canfod a ydych yn gymwys i dderbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, mae gennych hawl i gael asesiad o'ch anghenion gofal. Gan nad oes gan yr Awdurdod Lleol yr adnoddau i ddiwallu anghenion pawb, mae'n ofynnol i ni fod â pholisi sy'n egluro pwy sy'n gymwys i gael gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a phwy nad yw'n gymwys. Caiff y rheolau y mae gofyn i ni eu defnyddio i benderfynu pwy sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau'u galw'n 'feini prawf cymhwyster'. Mae hyn yn golygu bod gennym ddyletswydd i sicrhau bod anghenion pawb yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r un rheolau, a bod penderfyniadau'n deg. Gallwch ofyn am fwy o wybodaeth am hyn.

Beth yw asesiad?

Mae asesiad yn golygu siarad gyda Rheolwr Gofal a fydd yn trafod eich anghenion a'ch dewisiadau gyda chi er mwyn canfod pa gymorth y mae arnoch ei angen. Efallai y bydd y rheolwr gofal yn gofyn am eich caniatâd i siarad gyda'ch meddyg teulu neu Nyrs Ardal am eich anghenion.

Os hoffech ofyn am asesiad o'ch anghenion gallwch:

- gysylltu â'r Tîm Cyswllt Cyntaf a Gwybodaeth,
- gofyn i'ch meddyg teulu neu Nyrs Ardal gysylltu â ni ar eich rhan,
- os ydych yn yr ysbyty, gallwch ofyn i staff y ward roi gwybod i ni

Produce by the Design Team, BCBC 0049/OLDP

Beth fydd yn digwydd wedi i mi gael asesiad?

Bydd yr asesiad yn galluogi'r Rheolwr Gofal i benderfynu a ydych yn gymwys i gael cymorth. Os ydych yn gymwys i gael cymorth, mae ystod o opsiynau y gallwch ddewis o'u plith.

Os nad ydych yn gymwys i gael cymorth byddwn yn anfon llythyr atoch yn egluro'r rhesymau ac yn cynnig cyngor a gwybodaeth i chi ynghylch ffynonellau cymorth eraill.

Mae gennych hawl i apelio os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad.

Pa gymorth sydd ar gael?

Nid yw'r rhestr isod o wasanaethau'n un gynhwysfawr. Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r gwasanaethau yn y daflen hon neu fanylion unrhyw wasanaethau eraill gallwch gysylltu â'r Tîm Cyswllt Cyntaf a Gwybodaeth. Gweler y manylion cyswllt ar y dudalen olaf.

Addasu eich cartref

Gall y Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol argymell newidiadau neu addasiadau i'ch cartref a rhoi cyngor a gwybodaeth i chi ynghylch ffynonellau ariannu ar gyfer unrhyw waith. Dyma rai enghreifftiau o'r ychwanegiadau sydd ar gael:

- canllawiau bychain,
- lifftiau grisiau,
- toiledau ar y llawr gwaelod,
- mynediad i'ch cartref ar gyfer cadair olwyn.

Cymhorthion ac Offer

Gall y gwasanaethau Therapi Galwedigaethol argymell a rhoi benthyg offer arbenigol i'ch helpu i gyflawni'ch tasgau gofal personol eich hunain yn annibynnol gartref. Er enghraifft, offer i'ch helpu i wneud y canlynol:

- codi o'r gwely,
- cael cawod neu fath,
- gwisgo,
- defnyddio'r toiled.

Tîm Anabledd ac Adfer Cymunedol

Gall cyflyrau meddygol cronig, megis arthritis, clefyd y galon neu strôc, effeithio ar eich gallu i reoli tasgau beunyddiol yn annibynnol. Gall y Tîm Anabledd ac Adfer Cymunedol (CDRT) eich helpu i ddatblygu'r sgiliau y mae arnoch eu hangen i gyflawni'r tasgau beunyddiol hyn. Mae'r tîm yn cynnwys:

- Therapydd Galwedigaethol,
- Physiotherapydd,
- Therapydd Lleferydd ac Iaith,
- Gweithiwr Cymdeithasol a
- Nyrs.

Bydd y tîm yn cydweithio i gynllunio rhaglen adfer i'ch helpu i gael a chynnal eich annibyniaeth gartref.

Cyfleoedd Dydd

Mae ystod o gyfleoedd yn ystod y dydd sy'n darparu amrywiaeth o gymorth. Mae cyfleoedd ar gael i ddiwallu pob angen:

- gweithgareddau hamdden,
- y cyfle i gwrdd ag eraill,
- dychwelyd i'r gwaith,
- cyngor a chymorth arbenigol.

Mae'r gwasanaethau ar gael mewn amryw leoliadau yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Gallwch ofyn am fwy o wybodaeth am hyn.

Taliadau Uniongyrchol

Mae taliadau uniongyrchol yn daliadau mewn arian parod a ddarperir er mwyn i chi allu prynu'r gofal y mae arnoch ei angen yn ôl asesiad a wnaed. Gallwch ddewis cael taliad uniongyrchol i gyflogi eich staff eich hun neu gallwch brynu gofal gan asiantaeth ofal annibynnol yn hytrach na cheisio mynediad at wasanaeth gennym ni.

Prydau yn Eich Cartref

Os nad ydych yn gallu paratoi eich prydau na gwneud trefniadau priodol ar eu cyfer, gall gwasanaeth prydau bwyd ddanfon pryd i'ch cartref.

Gofal personol yn eich cartref eich hun

Bydd gweithwyr Gofal Cartref yn gweithio gyda chi yn eich cartref i roi cymorth i chi fod yn annibynnol. Byddant yn rhoi cymorth ymarferol gyda'r tasgau beunyddiol a gytunwyd yn eich cynllun gofal. Gallai'r tasgau gynnwys cymorth gyda'r canlynol:

- codi yn y bore,
- ymolchi a gwisgo,
- paratoi i fynd i'r gwely yn y nos,
- bwyta ac yfed,
- siopa a phrydau bwyd,
- gwaith tŷ ysgafn.

Anableddau Synhwyraidd

Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw neu os ydych yn ddall neu'n gweld yn rhannol mae gwasanaethau arbenigol ar gael.

Bydd gweithwyr arbenigol yn gweithio gyda chi i asesu eich anghenion a rhoi cyngor a gwybodaeth i chi ynghylch y cymorth sydd ar gael.

Mae'r dewisiadau sydd ar gael i roi cymorth i chi'n cynnwys:

- Dehongli Iaith Arwyddion Prydain,
- Llefaru â gwefusau,
- Gwasanaethau testun i siarad,
- Systemau cyfathrebu arbenigol megis Braille, Moon a sgiliau bysellfwrdd,
- Cwnsela,
- Offer,
- Cofrestru fel rhywun sy'n ddall neu'n gweld yn rhannol,
- Cofrestru fel rhywun sy'n fyddar neu'n drwm ei glyw,
- Gwasanaethau Awdioleg ac Offthalmoleg y GIG.

Egwylion Byr (Gofal Seibiant)

Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cyfleoedd i chi a'ch gofalwr gael seibiant o'ch trefn ofalu arferol. Mae dewis o leoliadau cymeradwy y gallwch gael egwylion byr ynddynt.

Cymorth mewn cartref gofal

Mae Cartrefi Gofal yn darparu gofal personol neu ofal nyrsio am bedair awr ar hugain y dydd. Gall gweithiwr cymdeithasol ddarparu cyngor a gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniad i symud i gartref gofal. Mae rhestr o gartrefi gofal a gwybodaeth bellach am ddewis cartref gofal addas ar gael.

Teleofal

Mae Bridgelink Telecare yn wasanaeth larwm cymunedol newydd ac uwch. Mae'r gwasanaeth yn gweithio trwy ddefnyddio synwyryddion wedi'u gosod mewn mannau dirgel sy'n gweithredu gyda'ch llinell ffôn gartref. Mae botwm galw'n eich galluogi i alw am help yn gyflym ac yn ddiogel. Mae'r ystod o synwyryddion sydd ar gael yn cynnwys:

- synwyryddion cwympiadau,
- synwyryddion mwg,
- synwyryddion llifogydd,
- synwyryddion carbon monocsid,
- synwyryddion gwely gwag.

Beth fydd rhaid i mi ei dalu?

Nid oes tâl am asesiad o'ch anghenion ond efallai y bydd tâl am wasanaethau y canfu'r asesiad fod arnoch eu hangen. Byddwn yn cynnal asesiad ariannol i gyfrifo faint fydd yn rhaid i chi ei dalu. I gael mwy o wybodaeth am daliadau, cyfeiriwch at ein taflenni ar godi tâl am wasanaethau preswyl ac amhreswyl.

Mae gennych hawl i benderfynu peidio â dweud wrthym am eich sefyllfa ariannol, ond os byddwch yn dewis peidio â datgelu'ch incwm a'ch cynilion bydd rhaid i ni godi'r tâl llawn am y gwasanaeth.

I gyflwyno sylw, canmoliaeth neu gŵyn

Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn os nad ydyn yn fodlon ar unrhyw agwedd ar eich asesiad neu'ch gwasanaeth. Gallwch ddod i wybod mwy am gyflwyno cwyn yn y daflen sy'n dwyn y teitl 'Sylwadau, Cwynion, Canmoliaeth' sydd ar gael oddi wrth y Tîm Cyswllt Cyntaf.

A oes cymorth i Ofalwyr?

Os ydych yn gofalu am rywun sy'n methu â gofalu amdano/amdani'i hun oherwydd salwch, anabledd neu effeithiau heneiddio a chithau'n darparu gofal sylweddol yn ddi-dâl ar gyfer yr unigolyn hwnnw, yna rydych yn ofalwr.

Fel gofalwr mae gennych hawl i gael asesiad o'ch anghenion drwy eich hawl eich hun.

Mwy o Wybodaeth

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r gwasanaethau yn y daflen hon neu wasanaethau eraill gallwch siarad gyda Gweithiwr Gofal Cymunedol yn y Tîm Cyswllt Cyntaf a Gwybodaeth. Mae ein horiau agor fel a ganlyn:

- Dydd Llun i ddydd Gwener o 8:30 – 17:00
- Dydd Gwener o 8:30 – 16:30

Mae ein manylion cyswllt fel a ganlyn:

Y Tîm Cyswllt Cyntaf a Gwybodaeth

Gofal Cymdeithasol i Oedolion,
Y Gyfarwyddiaeth Lles,
Sunnyside,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AR
Ffôn: 01656 642 279 (gallwch ddefnyddio Typetalk)
Minicom: 01656 642 383
Ffacs: 01656 642 300
Negeseua testun SMS: ABC +44 797 697 2020
E-bost: firstcontactteam@bridgend.gov.uk

Manylion Cyswllt mewn Argyfwng:

Ar gyfer yr argyfyngau mwyaf difrifol y tu allan i oriau swyddfa gellir cysylltu â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ar:

Ffôn: 01443 849 944
Ffacs: 01443 849 955

Mae'r daflen hon ar gael mewn ieithoedd arall, mewn print mawr, mewn braille ac ar dâp. Cysylltwch â'r Tîm Cyswllt Cyntaf i wneud cais.

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council